

PANEL DYFARNU CYMRU ADJUDICATION PANEL FOR WALES

ADRODDIAD AR Y PENDERFYNIAD

CYFEIRNOD Y TRIBIWNLYS: APW/001/2013-014/CT

**CYFEIRIAD MEWN PERTHYNAS Â METHIANT HONEDIG I DDILYN Y COD
YMDDYGIAD**

YMATEBYDD: Y Cyn-Gynghorydd Tref Nathan Casey

AWDURDOD PERTHNASOL: Cyngor Tref Llandrindod

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Tribiwnlys Achos a gynullwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru wedi ystyried cyfeiriad mewn perthynas â'r Ymatebydd uchod.

1.2 Gwrthododd y cyn-Gynghorydd Casey roi cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth i Banel Dyfarnu Cymru ac, felly, mae unrhyw gyswllt ag ef wedi bod drwy e-bost neu dros y ffôn. Ar 3^{ydd} Mai 2013 ysgrifennodd Panel Dyfarnu Cymru ato a chafodd ateb ar 30^{ain} Mai 2013 yn nodi ei ymateb i'r g yn. Gwnaed ymdrechion wedyn i drefnu dyddiad ar gyfer gwrandawriad a bennwyd ar gyfer 27/28^{ain} Tachwedd.

1.3 Mewn galwad ffôn ar 23^{ain} Hydref 2013 gwrthododd y cyn-Gynghorydd Casey nodi a fyddai'n dod i'r gwrandawriad, heb roi unrhyw resymau. Fe'i hysbyswyd wedyn y gallai'r Tribiwnlys fynd yn ei flaen drwy sylwadau ysgrifenedig. Ar 18^{fed} Tachwedd ffoniodd a dywedodd ei fod am ddod i wrandawriad a gofynnwyd iddo ddaparu manylion am dystion ac unrhyw dystiolaeth bellach. Ni ddarparodd unrhyw wybodaeth ychwanegol.

1.4 Ar 15^{fed} Ionawr 2014 hysbyswyd y cyn-Gynghorydd Casey o'r dyddiadau newydd ar gyfer y gwrandawriad, sef 21/22^{ain} Chwefror 2014. Ar 29^{ain} Ionawr anfonodd neges e-bost i ddweud na fyddai'n dod i'r gwrandawriad.

1.5 Felly, yn unol â dymuniadau'r cyn-Gynghorydd Casey, penderfynodd y Tribiwnlys Achos ar ei ddyfarniad drwy gynrychioliadau ysgrifenedig yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 21 Chwefror 2014 yng Ngwesty Gwledig New House, Thornhill, Caerdydd. Nid oedd y gwrandawriad yn agored i'r cyhoedd.

2. DOGFENNAU RHAGARWEINIOL

2.1 Cyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1.1. Mewn llythyr dyddiedig 22 Ebrill 2013, cafodd Panel Dyfarnu Cymru gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") mewn perthynas â honiadau a wnaed yn erbyn y cyn-Gynghorydd Casey. Yr honiadau oedd bod y cyn-Gynghorydd Casey wedi torri cod ymddygiad Cyngor Tref Llandrindod drwy ymddwyn tuag at yr achwynydd mewn ffordd a fyddai'n gyfystyr ag aflonyddu gan gynnwys cynnal arolwg a fyddai'n camarwain y cyhoedd ac yn niweidio enw da'r achwynydd; anfon negeseuon e-bost a chyhoeddi negeseuon ar Facebook a oedd yn dangos diffyg parch i'r achwynydd ac a barodd ofid iddo; drwy beidio â hysbysu'r Ombwdsmon o'r hyn y credai ei fod yn achos o dorri'r cod ymddygiad a thrwy beidio â chymryd rhan ym mhroses yr ymchwiliad.

2.1.2 Mae'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad yn amlwg o'r ffeithiau perthnasol a ganfuwyd gan y Tribiwnlys, a nodir ym mharagraff 4 isod.

2.2 Ymateb Ysgrifenedig yr Ymatebydd i'r Cyfeiriad

2.2.1 Rhoddodd y cyn-Gynghorydd Casey ymateb ysgrifenedig i'r cyfeiriad mewn llythyr dyddiedig 30^{ain} Mai 2013. Ni heriodd ffeithiau'r achos i unrhyw raddau sylweddol. Cwynodd ynghylch y ffordd yr oedd yr Ombwdsmon wedi cynnal yr ymchwiliad. Dadleuodd fod ganddo bob cyfiawnhad dros wneud yr hyn a wnaeth.

2.3 Cynrychioliadau Ysgrifenedig yr Ombwdsmon

2.3.1 Cadarnhaodd ymateb yr Ombwdsmon fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi gwneud cwyn ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd gan swyddogion a oedd yn ymdrin â'r mater, a rhoddodd fanylion yr ymchwiliad a ganfu fod y g yn yn ddi-sail.

2.3.2 Hefyd, gwnaeth yr Ombwdsmon sylw cyffredinol ar ymateb yr ymatebydd fel a ganlyn:

"Mr Casey elected not to be involved in the investigation until after the report was written. After I persuaded Mr Casey, at the very least, to comment on the draft report he changed his mind. However he still chose not to provide a copy of the survey. In the response to the report he does not deny his actions as he believes they were justified and do not amount to a breach of the code of conduct. The Ombudsman has taken the view that his actions may amount to a breach of the code of conduct for the reasons set out in the report."

3. CYFLWYNIADAU LLAFAR

3.1. Ni wnaed unrhyw gyflwyniadau llafar i'r Tribiwnlys Achos a benderfynodd ar yr achos ar sail sylwadau ysgrifenedig.

4. CANFYDDIADAU FFEITHIOL

4.1 Canfu'r Tribiwnlys Achos y ffeithiau perthnasol canlynol **nad oes anghydfod yn eu cylch**:

4.1.1 Daeth y cyn-Gynghorydd Tref Casey yn gynghorydd ym mis Mai 2012.

4.1.2 Llofnododd y datganiad yn nodi ei fod yn derbyn y cod ymddygiad ac yn ymrwmo i gydymffurfio ag ef ar 15^{fed} Mehefin 2012.

4.1.3 Ysgrifennodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey at Gyngor Sir Powys ar 16^{eg} Gorffennaf 2012 gan godi materion yn ymwneud â chynghorydd arall, sef y Cynghorydd Sir Turner, a gafodd ei ethol ar 3^{ydd} Mai 2012. Honnodd ei llythyr fod y Cynghorydd Sir Turner wedi anfon llun anwedus yn ei ddinoethi ei hun i ferch dan oed ac, oherwydd hyn, ei bod yn annerbyniol i'r Cynghorydd Sir Turner gael ei benodi'n llywodraethwr yn unrhyw un o ysgolion yr AALI.

4.1.4 Ymchwiliwyd i'r pryderon a godwyd gan y llythyr hwn gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys a swyddog arweiniol y cyngor ar gyfer gofal plant. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys cyfweiliad â'r Cynghorydd Sir Turner, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol dan sylw (Mrs Dorkenoo) a thrafodaeth â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Powys yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.1.5 Yn dilyn yr ymchwiliad hwn cyfarfu'r Swyddog Monitro a'r swyddog arweiniol ar gyfer gofal plant â'r cyn-Gynghorydd Tref Casey, yng ng ydd Mrs Dorkenoo, a rhoi manylion llawn canlyniad yr ymchwiliad iddo.

4.1.6 Ar 12^{fed} Medi hysbyswyd y Cynghorydd Sir Turner y gallai barhau yn ei rôl fel llywodraethwr ysgol.

4.1.7 Ar 5^{ed} Hydref hysbysodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey y Cynghorydd Sir Turner drwy e-bost ei fod yn bwriadu cynnal arolwg o'r cyhoedd er mwyn nodi eu barn ar ei ymddygiad a'i addasrwydd i fod yn llywodraethwr ysgol.

4.1.8 Cysylltodd y Cynghorydd Sir Turner â'r heddlu ar 6^{ed} Hydref a ymwelodd â'r cyn-Gynghorydd Tref Casey. Yn dilyn yr ymweliad hwn anfonodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey neges e-bost arall at y Cynghorydd Sir Turner yn dweud nad oedd ymwneud yr heddlu wedi ei ddychryn a'i fod yn bwriadu parhau â'r arolwg oni fyddai'r Cynghorydd Sir Turner yn ymddiswyddo fel llywodraethwr ysgol.

4.1.9 Ymwelodd yr heddlu â'r cyn-Gynghorydd Tref Casey unwaith eto ar 7^{fed} Hydref. Ar yr un diwrnod siaradodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey â dau aelod o'r cyhoedd a gofyn iddynt lofnodi deiseb. Gwrthododd Mr Margrave-Townsend wneud hynny. Llofnododd Mrs Walker y ddeiseb ond dewisodd ddileu ei lofnod yn ddiweddarach. Roedd y cyn-Gynghorydd Tref Casey hefyd yn bresennol y tu

allan i un o siopau Tesco ac ysgol gynradd leol lle y bu'n siarad â mwy na 90 o aelodau o'r cyhoedd. Siaradodd ag un o Gynghorwyr eraill Sir Powys, Gary Price.

4.1.10 Ar yr un diwrnod, neu tua'r dyddiad hwnnw, cyhoeddodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey sylw ar dudalen Facebook y Cynghorydd Sir Turner lle y nododd mai diben ei arolwg oedd "to stop you becoming a member of the board of governors of a Powys primary school."

4.1.11 Ar 10^{fed} Hydref cyflwynwyd Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu (PIN) i'r cyn-Gynghorydd Tref Casey o dan y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu.

4.1.12 Ar 12^{fed} Hydref hybysodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey y Cynghorydd Sir Turner drwy e-bost na fyddai'n cynnal arolwg mwyach.

4.1.13 Yn ei gyfarfod ar 16^{eg} Hydref ystyriodd Cyngor Tref Llandrindod eitem o dan y pennawd "Complaints against members" a oedd yn ymwneud â nifer o lythyrau dienw ac un oddi wrth y Cynghorydd Williams o Gyngor Sir Powys. Mae'r cofnodion yn nodi bod y llythyrau wedi'u trosglwyddo i Glerc y Dref er mwyn iddynt gael eu rhwygo.

4.1.14 Ar 19^{eg} Hydref, neu tua'r dyddiad hwnnw, ymddangosodd sawl erthygl yn y wasg leol a oedd yn cynnwys datganiadau gan y cyn-Gynghorydd Tref Casey a'r Cynghorydd Sir Turner.

4.1.15 Hysbyswyd y cyn-Gynghorydd Tref Casey o ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd ar fin cael ei gynnal ar 25^{ain} Hydref. Ymddiswyddodd ar 7^{fed} Ionawr 2013, neu tua'r dyddiad hwnnw, a siaradodd â Swyddog Ymchwilio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn cadarnhau hyn ar 9^{fed} Ionawr 2013. Dywedodd ei fod yn symud o'r ardal. Ni roddodd gyfeiriad cysylltu, na chyfeiriad e-bost, ond rhoddodd rif ffôn cyswllt. Ar 10^{fed} Ionawr siaradodd unwaith eto â'r Swyddog Ymchwilio a nododd na fyddai'n ymateb i unrhyw gwestiynau eraill. Rhwng 10^{fed} Ionawr a 12^{fed} Chwefror ffoniodd y Swyddog Ymchwilio'r cyn-Gynghorydd Tref Casey ond ni adawodd unrhyw neges. Ar 12^{fed} Chwefror ffoniodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chytunodd i ymateb i'r adroddiad drafft.

4.2 Canfu'r Tribiwnlys Achos y ffeithiau perthnasol canlynol **y mae anghydfod yn eu cylch**:

4.2.1 Yr hyn a ddywedwyd neu y cytunwyd arno yn y cyfarfod ar 22^{ain} Awst 2012 rhwng y Swyddog Monitro, y swyddog cydymffurfiaeth lleol (LCO) a'r cyn-Gynghorydd Tref Casey.

4.2.2 A oedd y cyn-Gynghorydd Tref Casey, drwy'r negeseuon e-bost a anfonodd ar 5^{ed}/6^{ed} Hydref, a'r eitem a gyhoeddodd ar Facebook ar 7^{fed} Hydref, wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn gyfystyr ag aflonyddu neu fwlio.

4.2.3 A oedd yr arolwg/deiseb yn cynnwys gwybodaeth gamarweiniol.

4.2.4 A roddodd y cyn-Gynghorydd Tref Casey wybodaeth gamarweiniol i aelodau o'r cyhoedd rhwng 5^{ed} a 7^{fed} Hydref ac, yn benodol, a nododd ei fod yn gynghorydd ac a enwodd y Cynghorydd Sir Turner yn uniongyrchol.

4.2.5 Sut y bu i'r mater gael sylw yn y wasg - a phwy a oedd yn gyfrifol am hynny.

4.2.6 A ellid ystyried bod datganiadau'r cyn-Gynghorydd Tref Casey yn ystod y cyfnod hwn a'i ddogfen arolygu yn sylw gwleidyddol dilys.

4.2.7 A oedd y negeseuon e-bost, yr eitem a gyhoeddwyd ar Facebook, yr arolwg/deiseb a'r sylwadau yn y wasg, gyda'i gilydd yn gyfystyr ag ymgyrch casineb ["hate campaign"].

4.2.8 A oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gofyn am y ddogfen arolygu.

4.2.9 A oedd y cyn-Gynghorydd Tref Casey wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

4.2.10 A ddefnyddiodd y Cynghorydd Sir Turner ei swydd ar y panel atal troseddu i roi'r cyn-Gynghorydd Tref Casey o dan anfantais.

4.2.11 A all prawf y person rhesymol ["reasonable person"] a ddefnyddiwyd gan y cyn-Gynghorydd Tref Casey gyfiawnhau'n briodol yr hyn a wnaeth.

4.3 Canfu'r Tribiwnlys Achos y canlynol o ran y ffeithiau y mae anghydfod yn eu cylch:

4.3.1 Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon bod adroddiad yr Ombwdsmon wedi cofnodi canlyniad y cyfarfod ar 22^{ain} Awst 2012 yn gywir a bod y cyn-Gynghorydd Casey wedi'i hysbysu nad oedd unrhyw faterion heb eu datrys a oedd yn atal y Cynghorydd Turner rhag cael ei benodi'n llywodraethwr ysgol.

4.3.2 Nid yw'r cyn-Gynghorydd Casey erioed wedi herio cynnwys y negeseuon e-bost na'r eitemau a gyhoeddwyd ar Facebook nac ychwaith eu bod wedi cael eu hanfon ganddo. Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod y negeseuon e-bost hyn yn gyfystyr ag aflonyddu a bwlio, am eu bod yn gyfystyr ag ymddygiad a oedd yn bwriadu creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, bychanol, neu sarhaus i'r Cynghorydd Turner neu a arweiniodd at greu'r fath amgylchedd a'i fod hefyd yn gamddefnydd o b er gyda'r bwriad o fygwth a phardduo'r Cynghorydd Turner.

4.3.3 Roedd yr Ombwdsmon a'r Tribiwnlys Achos wedi gofyn i'r cyn-Gynghorydd Casey ddarparu copi o'i arolwg sawl gwaith ond dewisodd beidio â

gwneud hynny. Fodd bynnag, yn ei neges e-bost a anfonwyd at y Cynghorydd Turner ar 6^{ed} Hydref 2012 mae'n nodi'r hyn yr oedd yn bwriadu ei gyhoeddi, sef

“Before Cllr Turner gained his position around 2/3 years ago, he found it acceptable to send a picture of himself to an underage girl exposing himself, this was done by mobile phone. Cllr Turner now thinks it is acceptable for him to sit on Cefnlllys School board of governors”.

4.3.4 Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon, ar sail y dystiolaeth hon, fod yr arolwg yn cynnwys gwybodaeth rannol ac ymfflamychol gyda'r bwriad o gamarwain pobl.

4.3.5 Ystyriodd y Tribiwnlys Achos ddwy set o dystiolaeth groes, sef datganiadau tyst Mr Margrave-Townsend a Mrs Walker a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr Ombwdsmon a swp o ddatganiadau a ddarparwyd an y cyn-Gynghorydd Casey. Soniodd y cyntaf yn llawn ac yn fanwl am y cyswllt a'r trafodaethau a fu rhyngddo a'r cyn-Gynghorydd Casey. Rhoddodd yr olaf ychydig iawn o fanylion am y tystion (yn aml heb unrhyw gyfeiriadau adnabyddadwy nac enwau clir). Datganiadau byr oddi ar y cof oedd y rhain ac nid oeddent yn ymdrin â mater gwybodaeth gamarweiniol. Canfu'r Tribiwnlys Achos fod tystiolaeth Mr Margrave-Townsend a Mrs Walker yn gredadwy ac yn berthnasol ac roedd yn well ganddo'r dystiolaeth hon na'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y cyn-Gynghorydd Casey. Felly, ar y cyd â'r dystiolaeth yn 4.3.3, canfu fod y Cynghorydd Turner wedi'i enwi gan y cyn-Gynghorydd Casey yn ystod yr arolwg a bod y cyn-Gynghorydd Casey wedi honni ei fod yn gynghorydd wrth gynnal yr arolwg.

4.3.6 Nid oedd gan y Tribiwnlys Achos unrhyw dystiolaeth i benderfynu pwy a oedd yn gyfrifol am gyfeirio'r mater at y wasg ac ni ddaeth i unrhyw gasgliad. Fodd bynnag, nododd y Tribiwnlys Achos fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi'i ddyfynnu'n helaeth yn y wasg ynghylch y mater yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd Tref.

4.3.7 Ni chanfu'r Tribiwnlys Achos unrhyw dystiolaeth i ategu honiad bod ymgyrch casineb wedi bod yn erbyn y Cynghorydd Turner. Fodd bynnag, roedd yn fodlon bod y negeseuon e-bost a anfonwyd gan y cyn-Gynghorydd Casey a'r eitem a gyhoeddwyd ar Facebook yn rhan o fath cyfeiliornus o aflonyddu a achosodd gryn dipyn o ofid ac embaras i'r derbynydd.

4.3.8 Roedd y dystiolaeth gerbron y Tribiwnlys Achos yn glir. Roedd yr Ombwdsmon wedi gofyn am gopi o'r arolwg nad oedd wedi'i ddarparu gan y cyn-Gynghorydd Casey. Roedd cais tebyg gan y Tribiwnlys hefyd wedi'i anwybyddu.

4.3.9 Derbyniodd y Tribiwnlys Achos dystiolaeth yr Ombwdsmon fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth yn

ystod yr ymchwiliad ac mai dim ond ar ôl i'r adroddiad gael ei ddrafftio yr oedd wedi cymryd rhan ynddo. Yn benodol, nododd y Tribiwnlys Achos alwad ffôn a wnaed ganddo i swyddfa'r Ombwdsmon ar 10^{fed} Ionawr 2013 pan ddywedodd yn glir nad oedd am ymwneud â'r Ombwdsmon mwyach, na fyddai'n rhoi manylion ei gyferiad newydd, na fyddai'n rhoi manylion ei e-bost ac na fyddai'n barod i ateb cwestiynau.

4.3.10 Ni roddodd y cyn-Gynghorydd Casey unrhyw dystiolaeth i ategu ei honiad bod y Cynghorydd Turner wedi defnyddio ei swydd ar y panel atal troseddu yn amhriodol a gwrthododd y Tribiwnlys Achos yr honiad hwn am nad oedd iddo sail ffeithiol.

4.3.11 Ceisiodd y cyn-Gynghorydd Casey gyfiawnhau'r hyn a wnaeth ar y sail ei fod yn ceisio canfasio barn y cyhoedd er mwyn nodi'r hyn y byddai person rhesymol yn ei feddwl. Dangosodd hyn gamddealltwriaeth sylfaenol o'r cod ymddygiad. Ni fyddai prawf rhesymoldeb wedi bod yn berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw feirniadaeth o ymddygiad y Cynghorydd Turner. Byddai unrhyw honiad wedi cael ei asesu'n wrthrychol yn erbyn y dystiolaeth. Cynhaliodd y cyn-Gynghorydd Casey ei arolwg a'i ymgyrch o aflonyddu heb geisio unrhyw gyngor gan y Swyddog Monitro ac, yn wir, yn gwbl groes i'r wybodaeth a roddwyd iddo gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod ym mis Awst a chan yr heddlu ym Mis Hydref cyn iddo gael Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu.

5. CANFYDDIADAU O RAN A YW'R FFEITHIAU PERTHNASOL YN DATGELU METHIANT I GYDYMFFURFIO Â'R COD YMDDYGIAD

5.1 Cyflwyniadau'r Ymatebydd

5.1.1 Ni wnaeth y cyn-Gynghorydd Casey unrhyw gyflwyniadau ychwanegol heblaw am y rhai a gynhwyswyd yn ei ymateb ar 30^{ain} Mai. Ymdriniwyd â'i gyfiawnhad ym mharagraff 4.3.11 uchod.

5.2 Adroddiad yr Ombwdsmon

5.2.1 Mae sylwadau ychwanegol yr Ombwdsmon a nodir ym mharagraff 2.3.2 yn crynhoi ei safbwynt, sydd o gymorth.

5.3 Penderfyniad y Tribiwnlys Achos

5.3.1 Ar sail y canfyddiadau ffeithiol, drwy benderfyniad unfrydol canfu'r Tribiwnlys Achos fod methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad Cyngor Tref Llandrindod.

5.3.2 Mae paragraff 4(b) o'r cod ymddygiad yn datgan "[You must] show respect and consideration for others."

5.3.3 Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi anwybyddu gwybodaeth a chyngor gan y Swyddog Monitro a'r Heddlu a'i fod wedi parhau i

gynnal arolwg a gyflwynodd wybodaeth rannol a chamarweiniol am gyd-gynghorydd a oedd yn debygol o wneud niwed dirfawr i'w enw da ac achosi cryn ofid iddo. Ystyriodd y Tribiwnlys Achos a oedd cynnwys yr arolwg yn cael ei ddiogelu mewn unrhyw ffordd o dan Erthygl 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Daeth i'r casgliad nad oedd yn sylw gwleidyddol, dilys neu fel arall, ond yn ymosodiad personol ar unigolyn arall nad oedd yn berthnasol i gyfrifoldebau gwleidyddol y cyn-Gynghorydd Casey.

5.3.4 Mae paragraff 4(c) o'r cod ymddygiad yn datgan “[You must} not use bullying behaviour or harass any person.”

5.3.5 Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi anfon cyfres o negeseuon e-bost a chyhoeddi sylw ar dudalen Facebook y Cynghorydd Turner a oedd yn fygythiol ac yn debygol o fychanu'r derbynydd.

5.3.6 Mae paragraff 6(1)(a) o'r cod ymddygiad yn datgan “[You must] not conduct yourself in a manner which could reasonably be regarded as bringing your office or authority into disrepute.”

5.3.7 Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi siarad â hyd at 97 o aelodau o'r cyhoedd ac wedi gwneud sylwadau ar y mater hwn yn gyhoeddus yn y wasg tra'n honni ei fod yn gynghorydd. Roedd ei ymddygiad wedi golygu bod yn rhaid cyflwyno Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu iddo o dan y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu a gafodd sylw hefyd yn y wasg leol.

5.3.8 Mae paragraff 6(2) o'r cod ymddygiad yn datgan “You must comply with any request of your authority’s monitoring officer, or the Public Services Ombudsman in connection with an investigation conducted in accordance with their respective statutory powers.”

5.3.9 Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi gwrthod yn benodol ateb cwestiynau neu gydweithredu ag ymchwiliad yr Ombwdsmon.

6. CYFLWYNIADAU AR Y CAMAU I'W CYMRYD

6.1 Cyflwyniadau'r Ymatebydd

6.1.1 Ni chafwyd unrhyw gyflwyniadau gan y cyn-Gynghorydd Casey.

6.2 Penderfyniad y Tribiwnlys Achos

6.2.1 Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos. Nododd fod y cyn-Gynghorydd Casey wedi bod yn gynghorydd Tref am bum mis ond ei fod cael hyfforddiant ar y cod ac y byddai wedi bod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau. Roedd yn pryderu'n benodol ynghylch y ffaith bod y cyn-Gynghorydd Casey wedi parhau i ymddwyn fel y gwnaeth, er iddo gael cyngor clir gan y Swyddog Monitro a'r Heddlu nad oedd ganddo unrhyw gyfiawnhad na sail resymol i fynd ar ôl y Cynghorydd Turner. Roedd ei weithredoedd yn rhai bwriadol ac, er iddo

gael ei rybuddio ddwywaith gan yr heddlu, parhaodd i gynnal ei arolwg. Ni chydweithredodd â'r ymchwiliad dilynol ac nid yw erioed wedi ymddiheuro na dangos unrhyw ddealltwriaeth o ganlyniadau posibl ei weithredoedd.

6.2.2 Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid gwahardd y cyn-Gyngorydd Casey am dair blynedd rhag bod yn aelod neu ddod yn aelod o Gyngor Tref Llandrindod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000.

6.2.3 Hysbysir Cyngor Tref Llandrindod a'i Bwyllgor Safonau yn unol â hynny.

6.2.4 Mae gan yr Ymatebydd yr hawl i ofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad uchod. Cyngorir unrhyw un sy'n ystyried apêl i gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar sut i apelio.

7. ARGYMHELLION Y TRIBIWNLYS ACHOS

7.1 Nid yw'r Tribiwnlys Achos yn gwneud unrhyw argymhelliad.

Llofnod.....

Dyddiad.....

Ms Kate Berry

Cadeirydd y Tribiwnlys Achos

Mr Colin Evans

Aelod o'r Panel

Mrs Christine Jones

Aelod o'r Panel